

THOMAS, RHYS (1720? - 1790), argraffydd

Enw: Rhys Thomas
Dyddiad geni: 1720?
Dyddiad marw: 1790
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Argraffydd yng Nghaerfyrddin, Llanymddyfri, a'r Bont-faen. Haedda Rhys Thomas ei grybwyll yn y gwaith hwn am ei fod ymysg goreuon argraffwyr Cymru yn y 18fed ganrif ac oblegid cysylltiad ei wasg (yn y Bont-faen) â geiriadur Saesneg-Cymraeg adnabyddus [John Walters](#). Ceir ef yn argraffu yng Nghaerfyrddin yn 1760; e.e. *Cascljad o Hymnau (Morgan Rhys) a Golwg y Ffyddlonjaid or Degwch a Gogoniant Jesu Grist* (Dafydd Wiliam, Llandeilo Fach). Bu'n cydweithio â [John Ross](#) am gyfnod yn 1763. O 1764 hyd 1771 yr oedd ganddo wasg yn Llanymddyfri, â'i frawd DANIEL THOMAS yn ei gynorthwyo yn y lle hwnnw. (Ymddengys i Daniel Thomas barhau i argraffu hyd 1773; sylwer, fodd bynnag, fod ei enw ef ac enw ei frawd Rhys yn cael eu rhoddi fel argraffwyr *Dissertation on the Welsh Language*, gwaith [John Walters](#), a argraffwyd yn y Bont-faen yn 1771).

Yn niwedd 1769 neu ddechrau 1770 sefydlodd Rhys Thomas wasg yn y Bont-faen. Awgrymwyd mai [John Walters](#), Llandochoau, a'i hanogodd i ddyfod i'r Bont-faen, sydd yn agos at Llandochoau. Pa fodd bynnag am hynny, yr oedd y cysylltiad â [John Walters](#) ac â'i eiriadur i barhau am lawer blwyddyn. Gyrfa drafferthus a gafodd y geiriadur ar ei daith trwy wasg Rhys Thomas. Argreffid ef yn rhannau; daeth y rhan gyntaf allan yn 1770 a'r bedwaredd rhan ar ddeg yn 1783 - a'r geiriadurwr, druan, yn gorfod bod yn amyneddgar. Fel y gwelir yn llyfr [Ifano Jones](#) (*Hist. of Printing and Printers in Wales*) bu raid i [Owen Jones](#) ('Owain Myfyr') drefnu i gael gorffen yr argraffu - yn Llundain, yn 1794.

Bu Rhys Thomas farw yn 1790, ac fe'i claddwyd ym mynwent eglwys Llandochoau ar 11 Gorffennaf. Fe'i dilynwyd ef fel argraffydd yn y Bont-faen gan HENRY WALTERS (1766 - 1829), trydydd mab y geiriadurwr. Ychydig a argraffodd ef, oblegid ar 6 Chwefror 1791 prynwyd y wasg a'r teip gan JOHN BIRD (bu farw 1840), Caerdydd. Bu eraill o'r enw Bird yn y busnes argraffu yng Nghaerdydd, e.e. yr Hugh Bird a drosglwyddodd ei fusnes yn Duke Street, Caerdydd, yn 1866, i [William Lewis](#) (bu farw 1918), sylfaenydd y ffyrm sydd yn argraffu'r *Bywgraffiadur* presennol.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)
T. C. Evans ('Cadrawd'), '[John Walters and the First Printing Press in Glamorganshire](#),' yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Vol.I, No 3, 83-9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804748](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

